**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Ionawr 2013 i'w hateb ar 22 Ionawr 2013**

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yng Nghymru sy'n gwneud cais am brifysgolion a'r effaith ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido myfyrwyr. OAQ(4)0862(FM)**W**

**2. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ledled Cymru. OAQ(4)0865(FM)

**3. Elin Jones (Ceredigion)**: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru. OAQ(4)0857(FM)**W**

**4. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisi yng nghyswllt Addysg Uwch Cymru. OAQ(4)0854(FM)

**5. Lynne Neagle (Tor-faen)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn Nhor-faen. OAQ(4)0867(FM)

**6. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i goffáu bywyd a gwaith Alfred Russel Wallace eleni. OAQ(4)0868(FM)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y manteision economaidd a ddaeth i ranbarth Bae Abertawe oherwydd dyrchafiad Dinas Abertawe i Uwchgynghrair Lloegr. OAQ(4)0855(FM)

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i wella bywydau trigolion Canol De Cymru. OAQ(4)0860(FM)

**9. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A oes gan y Prif Weinidog unrhyw bryderon ynghylch enw da sector Addysg Uwch Cymru. OAQ(4)0859(FM)

**10. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar fudd-dal y dreth gyngor. OAQ(4)0856(FM)**W**

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru tlodi yng Nghymru. OAQ(4)0858(FM)

**12. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0863(FM)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer iechyd yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0866(FM)

**14. Nick Ramsay (Mynwy):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu twf busnesau yng Nghymru. OAQ(4)0861(FM)

**15. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Beth yw blaenoriaethau'r Prif Weinidog o ran gweithredu ei gyfrifoldebau strategol dros bolisi ynni yn ystod 2013. OAQ(4)0864(FM)**W**